

Trefn Addasrwydd i Astudio

Trefn 08: 2013 Fersiwn 01

Effeithiol 1 Tachwedd 2013



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Rhagarweiniad

1. Mae'r drefn hon yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n peri pryder sylweddol a/ neu mewn perygl o niweidio eu hunain neu eraill. Gall y brifysgol wahardd myfyrwyr rhag astudiaethau oherwydd afiechyd fel y diffinnir hynny gan y Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer yr holl Fyfyrwyr (Rheoliad 13).
2. Ni chaniateir defnyddio'r drefn hon i wahardd myfyrwyr rhag astudiaethau o dan y categorïau canlynol:
 - Absenoldebau byr a gymeradwywyd (e.e. salwch tymor byr). Dylid trin achosion felly fel absenoldebau awdurdodedig gan ragdybio bod myfyrwyr yn gallu parhau gyda gwaith cefndir, yn gallu mynd at adnoddau electronig ac y gellir cymeradwyo estyniadau priodol ar gyfer gwaith cwrs.
 - Sefyllfaoedd y gellir eu trin trwy gyfrwng gweithdrefnau ysgolion i ddelio ag amgylchiadau lliniarol.
 - Estyniadau i gyfnodau cofrestru. Dylai achosion o'r fath gael eu hystyried yn unol â threfniadau ymestyn cyfnod astudio.
 - Achosion disgyblu. Dylai achosion o'r fath gael eu hystyried o dan yr Ordinhad Disgyblu Myfyrwyr (ar gael o Swyddfa'r Cofrestrydd).
 - Achosion ymarfer annheg. Dylai achosion o'r fath gael eu hystyried o dan y Drefn Ymarfer Annheg (Trefn 05).
 - Gohirio astudiaethau'n wirfoddol ar sail iechyd a rhesymau eraill. Dylai achosion o'r fath gael eu hystyried yn unol â'r Drefn Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau (Trefn 07).
 - Terfynu astudiaethau ar sail wedi ymrwmo i raglen academiaidd neu'n ymwneud â rhaglen academiaidd. Dylid ystyried achosion o'r fath o dan y Drefn Terfynu Astudiaethau (Trefn 06).
 - Myfyrwyr sydd mewn dyled. Dylai achosion o'r fath gael eu hystyried yn unol â'r trefniadau ar gyfer delio â dyledwyr.
 - Myfyrwyr y gellir terfynu eu hastudiaethau gan y Byrddau Arholi yn unol â'r rheoliadau a'r trefniadau a ddiffinnir gan Reolau a Threfniadau a Chod Ymarfer Asesu Myfyrwyr ar Gyrsiau Israddedig a Chyrsiau Ôl-radd Hyfforddedig (Cod 02).
 - Myfyrwyr y gellir gwahardd neu derfynu eu hastudiaethau drwy weithdrefnau penodol a gymeradwywyd fel rhan o'r broses cymeradwyo/dilysu ar gyfer eu cwrs, gan gynnwys amodau a osodwyd gan gyrff proffesiynol neu noddwyr.
3. Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i ymateb yn briodol lle mae pryderon sylweddol am iechyd a lles myfyriwr, a'r effaith a all hynny ei gael ar yr unigolyn a/neu aelodau eraill o gymuned y brifysgol.
4. Dylai myfyrwyr ag anawsterau, lle bynnag bo'n bosibl, gael eu hystyried o bersbectif cefnogol. Mae'r brifysgol wedi ymrwmo i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at fyfyrwyr â salwch corfforol neu salwch meddwl.
5. Mae'r drefn hon yn disgrifio'r gefnogaeth sydd ar gael lle bo iechyd a lles myfyriwr yn dirywio i'r pwynt lle nad ydynt yn addas i astudio, yn cynnwys lle gallent fod mewn perygl o niweidio eu hunain a/neu eraill. Y mae wedi'i llunio i sicrhau agwedd gyson a sensitif at reoli sefyllfaoedd.
6. Gall staff a myfyrwyr hefyd godi pryderon am iechyd neu les myfyriwr, a defnyddir y ddogfen hon gan staff mewn unrhyw sefyllfa lle bo amheuan am les myfyriwr. Ni ddisgwylir i fyfyrwyr reoli sefyllfaoedd o'r fath a dylent bob amser gysylltu ag aelod o'r staff neu gynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr.
7. Disgwylir i staff reoli sefyllfaoedd lle bynnag y teimlant yn hyderus i wneud hynny o fewn paramedrau eu swyddogaeth broffesiynol a dylent gysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr os nad ydynt yn teimlo y gallant ddelio â sefyllfa, neu os ydynt angen cyngor neu ganllawiau ynglŷn â'r ffordd orau o ddelio â myfyriwr (<http://www.bangor.ac.uk/studentservices/index.php.cy>)

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg yn y drefn honno, gymryd y cyfrifoldebau a roddwyd i Ysgolion, Penaethiaid Ysgolion, Swyddogion Ysgolion neu Bwyllgorau Ysgolion, fel y bo'n briodol.

8. Mae gan fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau lle mae angen lleoliad proffesiynol ymarferol (yn cynnwys iechyd, gwaith cymdeithasol ac addysg) gyfrifoldebau ychwanegol, nid yn unig o ran eu hymddygiad ond eu haddasrwydd proffesiynol hefyd, fel yr amlinellir mewn codau ymarfer cyrff rheoliadol a/neu broffesiynol perthnasol. Dylid edrych yn llawn arnynt cyn defnyddio'r drefn Addasrwydd i Astudio.
9. Ni ddylid defnyddio'r polisi hwn mewn argyfwng neu sefyllfaoedd brys, er enghraifft lle mae myfyriwr yn bygwth niweidio ei hun, neu mae wedi niweidio ei hun, neu wedi cael ei anafu. Dylid galw'r gwasanaethau brys fel arfer mewn achosion fel hyn.

Canllawiau

10. Diben y drefn hon yw cefnogi myfyrwyr a staff i reoli sefyllfaoedd a digwyddiadau sy'n achosi pryder mawr. Mae tair lefel i'r drefn, yn seiliedig ar y risg gydnabyddedig i iechyd, diogelwch a lles meddyliol y myfyriwr neu eraill ac ar ymateb y myfyriwr i unrhyw ymyriad. Gall yr hyn sy'n achosi pryder arwain at:
 - ddechrau'r drefn ar unrhyw un o'r tair lefel
 - aros ar lefel neu
 - mynd drwy'r lefelau, os na fydd yr hyn sy'n achosi pryder yn cael ei wella trwy weithredoedd yr argymhellir a chytunir arnynt.
11. Gall pryderon ynghylch iechyd neu les myfyriwr gael eu hysgogi gan:
 - hwyliau newidiol neu ymddygiad anarferol (e.e. bod yn ymosodol, yn fewnblyg, yn obsesiynol, gorfyrlymus neu'n orhwyllog, yn drallodus, yn bigog)
 - absenoldeb neu ddiffyg ymroddiad sylweddol
 - dirywiad sydyn mewn perfformiad academiaidd neu gymhelliad
 - newid mewn ymddangosiad neu arwyddion amlwg o salwch (e.e. colli neu ennill pwysau'n ddramatig, diffyg glanweithdra a gofal personol parhaus)
 - ymddygiad amhriodol (e.e. cyffwrdd yn amhriodol, mynd yn rhy agos at bobl, chwerthin neu barablu'n ormodol ac yn annisgwyl am gyfnodau hir, iaith anwedus annodweddiadol fel rhegi)
 - tynnu allan o weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol neu chwaraeon a oedd yn eu hystyried yn bwysig ar un adeg
 - syrthni neu arwyddion o ddiffyg cwsig, neu ddryswch anarferol
 - arwyddion amlwg o gamddefnyddio sylweddau / alcohol
 - gwybodaeth am achosion penodol (e.e. meddwl am hunan niweidio/lladd ei hun neu geisio gwneud hynny)
 - newidiadau mewn ymddygiad neu iechyd sy'n golygu bod defnydd y myfyriwr o offer ac yn y blaen yn beryglus i'w hunain a/neu eraill.
12. Mae cyfathrebu yn hollbwysig wrth asesu lefel y risg i iechyd a lles myfyriwr. Gall ymyrryd yn gynnar i drin â phroblemau ac argymhell cymorth, helpu i atal sefyllfaoedd o argyfwng rhag digwydd. Lle bo staff yn teimlo nad ydynt yn ddigon hyderus i ddelio â sefyllfa neu'n teimlo'n ansicr ynglŷn â dechrau'r drefn hon, fe'u hanogir i ofyn am gyngor gan gynghorwr iechyd meddwl, Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr neu Bennaeth Gwasanaeth priodol arall.
13. I sicrhau cyfrinachedd priodol, dylid gofyn am y cyngor hwn heb ddatgelu manylion am y myfyrwyr dan sylw, e.e. ar sail ddienw.
14. Dylai myfyrwyr fod yn gysylltiedig â rheoli eu lles eu hunain lle bynnag bo modd. Fodd bynnag, efallai bydd adegau lle nid yw myfyriwr yn fodlon neu ddim yn gallu gweithio o fewn y trefniadau hyn. Yn yr achosion hyn, dylid parhau gyda'r broses, tynnu sylw at bryderon, gofyn am gyngor a gweithredu fel bo'n briodol.
15. Os bydd myfyrwyr yn dewis gohirio eu hastudiaethau, bydd yr ymchwiliad Addasrwydd i Astudio yn aildechrau cyn i'r myfyrwyr ddychwelyd i astudio.

Cam 1 o'r broses - pryderon dechreuol neu rai sy'n dod i'r amlwg

16. Defnyddir Cam 1 os oes pryderon dechreuol neu rai sy'n dod i'r amlwg am iechyd, diogelwch neu les meddyliol myfyriwr.
17. Os oes gan fyfyriwr bryderon am gyd fyfyriwr, dylai eu trafod gydag aelod o'r brifysgol mae'n teimlo'n fwyaf cyfforddus i siarad gydag ef neu hi. Gall fod yn diwtor, uwch diwtor, warden y neuadd, gweinyddwr ysgol, swyddog Undeb y Myfyrwyr neu aelod staff. Ni ddisgwylir i'r myfyriwr ddelio â'r sefyllfa ei hun ac ar ôl trafod y mater gydag aelod staff, bydd yr unigolyn hwnnw'n gwneud atgyfeiriad priodol neu'n ymdrin â'r mater.

18. Os nodwyd pryderon gan aelod staff, yna dylai'r aelod staff neu aelod arall gyda chyfrifoldeb sylfaenol a/neu wybodaeth am y myfyriwr (naill ai gwasanaethau academaidd neu broffesiynol) siarad â'r myfyriwr gyda chydymdeimlad a dealltwriaeth, a nodi bod pryderon am addasrwydd y myfyriwr i astudio, a gofnodwyd trwy ddefnyddio'r drefn hon. Gall staff gysylltu â chynghorwr iechyd meddwl, Pennaeth Cefnogi Myfyrrwr neu Bennaeth Gwasanaeth priodol arall i drafod a yw defnyddio'r drefn hon yn briodol.
19. Wrth ddechrau ar Gam 1 dylid nodi natur y pryderon yn glir, a dylid annog y myfyriwr i drafod yr ystyriaethau, yn cynnwys yr effaith bosibl ar eu hunain ac eraill. Dylid egluro i'r myfyriwr, er bod gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i gefnogi myfyrrwr gyda salwch, mai cyfrifoldeb y myfyriwr yw bod yn addas i astudio. Dylid darparu gwybodaeth am ffynonellau cefnogaeth broffesiynol o fewn y brifysgol y gall y myfyriwr eu defnyddio (e.e. Cefnogi Myfyrrwr, Gwasanaeth Cynghori, Gwasanaeth Anabledd, meddyg teulu'r myfyriwr).
20. Dylai'r myfyriwr ac aelod staff gytuno ar ddyddiad i gyfarfod o fewn 1 mis i adolygu'r sefyllfa (a elwir yn cyfarfod adolygu Cam 1), a thrafod effeithiolrwydd y gefnogaeth a gafodd y myfyriwr. Dylai'r pwyntiau allweddol a'r cytundebau, yn cynnwys pwyntiau gweithredu sy'n codi o'r drafodaeth hon gael eu cofnodi a'u hegluro i'r myfyriwr (Gweler y ffurflen yn Atodiad 1). Rhaid anfon copi o'r ffurflen at y myfyriwr o fewn 5 diwrnod gwaith. Dylid cadw copi o'r wybodaeth hon ar ffeil y myfyriwr am gyfnod cytunedig. Dylid rhoi sicrwydd i'r myfyriwr mai pwrpas ei gadw ar ffeil yw sicrhau bod y brifysgol yn darparu'r holl gymorth angenrheidiol, er mwyn gwneud yn siŵr bod y myfyriwr yn parhau'n addas i astudio. Dylid anfon copi o'r ffurflen hefyd at Bennaeth Cefnogi Myfyrrwr at ddiobenion monitro a chofnodi.
21. Dylid rhoi gwybod i'r myfyrrwr os bydd y pryderon yn parhau, os bydd unrhyw bryderon arall yn codi, neu maent yn gwrthod neu'n methu cymryd rhan yn y broses, gall arwain at roi ystyriaeth bellach i'w haddasrwydd i astudio trwy symud i Gam 2.
22. Mae'n bwysig cysylltu â'r myfyriwr mwy nag unwaith yn ystod Cam 1. Lle na cheir ymateb i'r cyswllt neu mae lefel y pryder yn cynyddu, dylai'r aelod staff ofyn am gyngor Pennaeth Cefnogi Myfyrrwr neu Bennaeth Gwasanaeth priodol arall. Gall hyn hefyd gynnwys penderfyniad i symud ymlaen i gam 2.

Cam 2 o'r broses - Pryderon parhaus a/neu sylweddol

23. Defnyddir Cam 2 os oes pryderon parhaus neu sylweddol am iechyd, diogelwch neu les meddyliol myfyriwr unigol.
24. Gweithredir Cam 2 gan Bennaeth Cefnogi Myfyrrwr neu Bennaeth Gwasanaeth priodol arall, a fydd yn cydweithio gyda staff eraill yng Ngwasanaethau Myfyrrwr a staff yn yr ysgol. Gwneir y penderfyniad terfynol ynglŷn â dilyn cam 2 y drefn gan Bennaeth Cefnogi Myfyrrwr neu Bennaeth Gwasanaeth priodol arall ar ôl derbyn gwybodaeth gan staff perthnasol arall.
25. Gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod â Phennaeth Cefnogi Myfyrrwr neu Bennaeth Gwasanaeth priodol i drafod y materion, gyda'r aelod staff a gododd y mater yn bresennol, os yw'n briodol. Rhoddir gwybod i'r myfyriwr bod dilyn cam 2 o'r drefn yn orfodol a gall gwrthod â chymryd rhan arwain at symud ymlaen i gam 3.
26. Pwrpas y cyfarfod fydd canfod beth yw barn y myfyriwr am y materion a nodwyd, yn cynnwys yr effaith mae salwch a/neu ymddygiad yn ei gael ar y myfyrier a/neu gymuned y Brifysgol.
27. Dylid hysbysu'r myfyriwr am bwrpas y cyfarfod a chael gwybod pa ddogfennau sydd eu hangen ar gyfer y cyfarfod. Gall y myfyriwr ddod â rhywun gydag ef neu hi i'r cyfarfod hwn, er enghraifft gall fod yn aelod o Undeb y Myfyrrwr, aelod o staff y brifysgol mewn rôl gefnogol, neu aelod agos o'r teulu. Gall myfyrrwr ag anabledd hefyd ddod â gweithiwr cefnogi gyda nhw (e.e. dehonglydd iaith arwyddion neu weithiwr iechyd meddwl). Yn ystod y cyfarfod bydd cynllun gweithredu a gytunir gan bawb yn cael ei lunio er mwyn sefydlu cefnogaeth i'r myfyriwr a chytuno'n ffurfiol ar ddisgwyliadau y dylai'r myfyriwr ufuddhau iddynt. Bydd gan y cynllun gweithredu hwn ddyddiad adolygu penodol, a rhaid egluro i'r myfyriwr beth fydd canlyniadau peidio â chadw at y cynllun gweithredu cytunedig. Gall gynnwys symud at Gam 3 o'r drefn, lle gellir ystyried bod rhaid gwahardd y myfyriwr rhag astudiaethau.
28. Os na ellir cytuno ar gynllun gweithredu yn ystod Cam 2, mae'n rhaid i'r achos symud ymlaen i Gam 3.
29. Bydd adroddiad am y cyfarfod a'r canlyniadau yn cael eu cofnodi gan Bennaeth Cefnogi Myfyrrwr neu Bennaeth Gwasanaeth priodol. Rhoddir copi o'r cynllun gweithredu cytunedig i Bennaeth Cefnogi Myfyrrwr ac Uwch Diwtor y myfyriwr yn yr ysgol. Bydd yr Uwch Diwtor yn ei ledaenu i staff perthnasol yr Ysgol fel bo'n briodol.
30. Dylid rhoi gwybod i'r myfyriwr os na chedwir at y cynllun gweithredu neu os oes pryderon ychwanegol yn codi, gellir arwain at roi ystyriaeth bellach i'w addasrwydd neu ei haddasrwydd i astudio trwy symud i Gam 3.

Cam 3 o'r broses - Pryderon difrifol neu gyson.

31. Defnyddir Cam 3 os codir pryderon difrifol neu gyson am weithredoedd neu ymddygiad myfyriwr unigol sy'n peri risg sylweddol i iechyd, diogelwch, lles y myfyriwr neu aelodau eraill o gymuned y brifysgol.
32. Bydd Cyfarwyddwr y Proffesiwn Myfyrrwr neu enwebai yn galw 'Cynhadledd Achos' i drafod y sefyllfa.

33. Fel rheol, bydd y canlynol yn bresennol yn y gynhadledd achos:
- Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr neu gynrychiolydd wedi'i enwebu
 - Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr
 - Cynrychiolydd neu gynrychiolwyr academiaidd/yr ysgol
 - Cynrychiolwyr priodol o'r timau Gwasanaethau Myfyrwyr
 - Aelodau o dîm wardeniaid y neuaddau pan fo'n briodol
 - Aelodau o'r staff diogelwch pan fo'n briodol
 - Swyddog Meddygol y brifysgol pan fo'n briodol
34. Bydd y gynhadledd achos yn penderfynu ar gam gweithredu cytunedig a fydd yn un o'r canlynol fel rheol:
- cynllun gweithredu gwell, neu
 - argymhelliad i'r posibilrwydd o wahardd y myfyriwr ar sail iechyd a lles
35. Os bydd y gynhadledd achos yn argymhell cynllun gweithredu manylach, gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Profiadau Myfyrwyr neu enwebai i dderbyn a thrafod y camau gweithredu a argymhellir. Gwahoddir y myfyriwr i ddod ag unigolyn gydag ef neu hi i'w gefnogi yn y cyfarfod. Bydd gan y cynllun ddyddiad adolygu penodol, ac eglurir beth fydd canlyniadau peidio â chadw at y cynllun gweithredu. Rhoddir copi o'r cynllun gweithredu cytunedig i Bennaeth Cefnogi Myfyrwyr ac i'r Uwch Diwtor.
36. Os mai'r gweithredu a argymhellir yw gwahardd y myfyriwr rhag astudiaethau, bydd Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr yn gofyn am gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd a hysbysir y myfyriwr yn ysgrifenedig. Mewn rhai achosion, efallai bydd angen hysbysu'r myfyriwr ar lafar yn dweud ei fod ef neu hi yn cael ei wahardd ar unwaith ac y bydd llythyr ffurfiol yn dilyn.
37. Ni argymhellir gwahardd myfyrwyr o'u hastudiaethau ac eithrio mewn achosion difrifol iawn, a phan fo'r holl ddulliau cefnogi wedi'u disbyddu, ac nid yw'r myfyriwr am ohirio ei astudiaethau'n wirfoddol, neu pan nad yw'r myfyriwr wedi dilyn y gefnogaeth gytunedig. Bwriad y gwaharddiad yw rhoi cyfle i'r myfyriwr gael amser i ffwrdd oddi wrth yr astudiaethau a rhoi sylw i broblemau iechyd a lles er mwyn, lle bynnag bo modd, iddo ef neu hi ddychwelyd i'r brifysgol ac aildechrau astudio.

Dychwelyd i astudio

38. Ni fydd unrhyw waharddiad rhag astudiaethau yn cael ei godi hyd nes bo'r myfyriwr wedi darparu tystiolaeth feddygol a/neu dystiolaeth berthnasol arall gan y meddyg teulu neu weithiwr proffesiynol perthnasol arall yn nodi yr ystyrir bod y myfyriwr yn addas i ddychwelyd i astudio. Gall y brifysgol ofyn i'r gweithiwr proffesiynol iechyd ateb cwestiynau penodol neu ystyried materion penodol, ac ni wneir penderfyniad i godi'r gwaharddiad hyd nes bo'r myfyriwr yn addas i ddychwelyd i amgylchedd y brifysgol. Gall y brifysgol hefyd ofyn i'r myfyriwr gael cyfweiliad gyda staff perthnasol i benderfynu ar addasrwydd y myfyriwr i astudio.
39. Bydd y brifysgol yn gwneud pob ymdrech i ganiatáu'r myfyriwr i barhau gyda'i astudiaethau, o fewn y cyfyngiadau a osodir gan reoliadau'r brifysgol. Gall hyn gynnwys ail-wneud cyfnodau astudio. Bydd y gallu i ail-wneud neu ddychwelyd i astudio yn dibynnu ar ba mor ddichonadwy a rhesymol yw cynnig o'r fath, a phenderfynir ar bob achos yn unigol.

Trefn Apêl

40. Gellir cyflwyno apeliadau yn erbyn penderfyniad Cadeirydd Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd i wahardd rhag astudiaethau (fel y nodir ym mharagraff 38) i'r Is-ganghellor. Dylai apeliadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y derbynia'r myfyriwr wybodaeth am benderfyniad y panel.36
41. Ystyrir apeliadau am y rhesymau a ganlyn yn unig:
- Diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd y Panel Addasrwydd i Astudio, a lle y gallai'r diffygion, yr afreoleidd-dra neu'r cyngor dan sylw fod wedi effeithio ar benderfyniad y Panel.
 - Amgylchiadau personol eithriadol sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y Panel. Rhaid i'r apelydd egluro pam na chafodd y Panel wybod am yr amgylchiadau personol hyn cyn ei gyfarfod. Lle byddai wedi bod yn bosibl i fyfyriwr roi gwybod i'r Panel am amgylchiadau eithriadol cyn ei gyfarfod, ond na wnaeth hynny, ni all wedyn roi'r rhesymau hyn fel sail dros apelio.
42. Bydd yr Is-ganghellor (neu rywun a enwebir ganddo) yn ymchwilio i'r pryderon mewn unrhyw ffordd a ystyrir yn briodol er mwyn casglu gwybodaeth lawn a pherthnasol cyn dod i benderfyniad ar yr apêl. Rhoddir penderfyniad yr Is-ganghellor fel rheol o fewn 20 diwrnod gwaith o'r dyddiad y derbynnir apêl.

43. Gall yr Is-ganghellor ddod i un o'r casgliadau canlynol:
- Na chaniateir yr apêl. Bydd yr Is-ganghellor yn ysgrifennu at yr apelydd i'w hysbysu y gwrthodwyd yr apêl a bod trefniadau gweithredu'r Brifysgol wedi dod i ben.
 - Caniatáu'r apêl. Bydd yr Is-ganghellor yn trefnu Panel Addasrwydd i Astudio, gydag aelodau gwahanol i'r panel gwreiddiol, i ystyried yr achos. Yn ei gyfarwyddyd, bydd yr Is-ganghellor yn nodi'r rhesymau pam y caniatwyd yr apêl.
44. Fel rheol, ni chaniateir apeliadau yn erbyn penderfyniad Panel Addasrwydd i Astudio sydd wedi'i ail-alw.
45. Yn unol â Deddf Addysg Uwch 2004 mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (yr OIA) wedi ei phennu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o 1 Ionawr 2005 i weithredu cynllun annibynnol yng Nghymru ar gyfer adolygu cwynion gan fyfyrwyr. Pan fo'r Drefn Addasrwydd i Astudio wedi'i chwblhau, gall myfyriwr gyflwyno cwyn i'r OIA. Mae'n rhaid cyflwyno cwyn o'r fath trwy anfon ffurflen gais y cynllun, ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol, i'r OIA o fewn tri mis o'r dyddiad ar y 'Llythyr Cwblhau Trefniadau Gweithredu' gan y Brifysgol yn nodi bod ei threfniadau gweithredu mewnol wedi eu cwblhau. Gellir lawrlwytho Ffurflen Gais y Cynllun o wefan yr OIA www.oiahe.org.uk.

Camau disgyblu

46. Os bydd myfyriwr â salwch meddwl yn torri unrhyw un o reoliadau'r brifysgol, caiff hyn eu hystyried o dan Ordinhad Disgyblu Myfyrwyr y brifysgol. Ni fydd myfyrwyr yn cael eu heithrio fel rheol o ymchwiliad disgyblu oherwydd eu bod yn cael eu hystyried o dan y drefn hon. Ystyrir pob achos yn unigol, gan roi sylw priodol i faterion sy'n gysylltiedig â salwch meddwl.

Monitro

47. Cesglir data ar y defnydd o'r drefn hon fel a ganlyn:
- nifer yr achosion ar bob cam o'r drefn
 - nifer y rhai sy'n cael eu gwahardd rhag astudiaethau
 - canlyniadau terfynol e.e. dychwelyd i astudio.
48. Caiff pob un o'r uchod eu monitro yn ôl coleg ac ysgol, ac yn ôl gender, ethnigrwydd, anabledd, oed, crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol lle bo'n bosibl, i sicrhau y defnyddir y drefn yn deg ac yn gyson.
49. Bydd y Tîm Cefnogi Myfyrwyr yn casglu'r data hwn ac yn codi unrhyw faterion a nodir yn uniongyrchol gyda'r colegau a'r ysgolion, neu gyda'r Gofrestrfa Academaidd, fel y bo'n briodol.